# Cyngor Cymuned Aberporth Ymgynghoriad Cymunedol Astudiaeth Enghreifftiol

Un Llais Cymru

One Voice Wales

## Cip cyflym:

**Cynhaliodd Cyngor Cymuned Aberporth ymgynghoriad cynhwysfawr er mwyn cynnwys pobl leol yn y gwaith o lunio cyllideb 2025–2026.**

**Y nod oedd bod yn fwy agored ynghylch y bwriad i godi'r praesept a chael gwybod mwy am flaenoriaethau'r gymuned.**


**Trwy ddefnyddio arolygon, cyfarfodydd cyhoeddus, a dulliau digidol, casglodd y Cyngor dystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau, a gofalu fod y gyllideb yn adlewyrchu anghenion lleol. Roedd y broses wedi cryfhau ymddiriedaeth ac wedi annog pobl i gymryd rhan.**

### Edrych yn ôl ar 2024.



Defnyddiwyd y fideo hon ar sgrin fawr yn y cyfarfod cyhoeddus ac ar gyfryngau cymdeithasol i roi gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o rôl y Cyngor yn y gymuned

### Gwybodaeth am y Praesept



Cynhyrchwyd gwybodaeth am y praesept a chyllideb 2025-2026. Cafodd hynny ei rannu yn y cyfarfod cymunedol, ar hysbysfyrddau pentrefi ac ar gyfryngau cymdeithasol.

## Heriau

**Wynebodd Cyngor Cymuned Aberporth nifer o heriau wrth geisio ymgysylltu:**

**Gwasgariad Daearyddol:** Roedd gwasanaethu pedwar pentref gwahanol a'u hanghenion gwahanol yn golygu fod rhaid cael cynrychiolaeth gyfartal.

**Poblogaeth yn Heneiddio:** Roedd llawer o bobl hŷn yn wynebu problemau hygyrchedd, ac roedd rhai yn anghyfforddus yn defnyddio offer digidol neu'n methu mynd i ddigwyddiadau wyneb yn wyneb.

**Ymwybyddiaeth Gyfyngedig:** Nid oedd llawer yn deall rôl neu gyfrifoldebau'r Cyngor.

**Rhwystrau Cyfathrebu:** Roedd negeseuon clir a chyson ar draws nifer o fformatau gwahanol yn hollbwysig, a chafodd yr holl ddeunyddiau eu cyfieithu a'u darparu yn y Gymraeg.

## Atebion

**Defnyddiodd y Cyngor drefn aml-weddog o roi gwybodaeth, ymgysylltu a chasglu adborth:**

**Rhoi Gwybodaeth i'r Gymuned**: Buont yn rhannu deunyddiau clir a hygyrch trwy gylchlythyron, hysbysfyrddau, a chyfryngau cymdeithasol, gan esbonio'r gyllideb, rôl y Cyngor, a'r cynnydd a fwriadwyd yn y praesept mewn iaith syml.

**Ymgysylltu â Phobl Ymhob Pentref:** Roedd yr ymgynghori'n cynnwys arolygon ar-lein, holiaduron papur, digwyddiadau galw heibio, a chyfarfodydd pentref. Bu aelodau'r Cyngor hefyd yn mynd i gyfarfod â grwpiau lleol i godi ymwybyddiaeth, ateb cwestiynau, a meithrin ymddiriedaeth.

Cafodd Cyngor Cymuned Aberporth gefnogaeth gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Ceredigion gyda chyflwyno Cyllidebu Cyfranogol; cychwyn syml ar y broses oedd cynnig cyfle i flaenoriaethu gwasanaethau oedd bwysicaf iddyn nhw.

## Adborth

- Cafodd adborth ei gasglu, ei ddadansoddi, a'i rannu'n agored trwy ddiweddariadau cymunedol a chyfarfodydd y Cyngor.
- Defnyddiwyd y prif themâu a blaenoriaethau a ddewiswyd gan bobl leol i lywio penderfyniadau ar y gyllideb ac wrth gynllunio'n strategol.

Ymrwymodd y Cyngor i gynnal deialog parhaus, trwy gylchlythyron rheolaidd.

# Brandio'r Cyngor ar gyfer Cyfathrebu Cliriach

Fel rhan o'r broses ymgynghori, roedd y Cyngor wedi deall ei bod yn bwysig creu hunaniaeth gyson y gellid ei hadnabod.


Cafodd dyluniad brand syml yn seiliedig ar logo presennol y Cyngor ei ddatblygu i sicrhau y gellid adnabod yr holl ddeunyddiau yn rhwydd, a bod yr holl waith cyfathrebu yn defnyddio'r un cynllun a dyluniad.

## Wyneb yn Wyneb





Rhoddodd digwyddiad ymgynghori cymunedol wyneb yn wyneb gyfle i'r Cyngor ateb cwestiynau yn uniongyrchol, rhoi sylw i bryderon yn syth, ac ymgysylltu â phobl na fyddent yn cymryd rhan fel arall. Roedd y digwyddiad yn cynnwys te prynhawn a theisennau a gweithgareddau er mwyn annog teuluoedd i ddod draw.

## Pwy sy'n gwneud beth?




Yn gynnar yn yr ymgynghoriad, daeth yn amlwg fod llawer o bobl yn ansicr beth oedd cyfrifoldebau gwahanol y Cyngor Cymuned, y Cyngor Sir, a phwyllgor y neuadd bentref leol. Arweiniodd y dryswch hwn yn aml at gam ddisgwyliadau neu gamddealltwriaethau am bwy sy'n gyfrifol am rai gwasanaethau neu benderfyniadau. Cynhyrchwyd taflen wybodaeth i roi gwybod i bobl leol pwy sy'n gwneud beth.

## Adborth




Roedd darparu adborth i'r gymuned ar ganlyniadau'r ymgynghoriad a'r cynllun gweithredu wedi helpu codi ymwybyddiaeth o waith y Cyngor, gan wella ei broffil cyhoeddus, ac adeiladu ymddiriedaeth. Mae'r adroddiad adborth yn dangos parodrwydd i fod yn agored, mae'n dangos fod cyfraniad y gymuned yn cael ei werthfawrogi, a'r gobaith yw y bydd yn annog mwy o bobl i gyfrannu at fentrau i'r dyfodol.

## Effaith

"Buddsoddi yn y lleoedd chwarae cymunedol"

"Gwella cyfleusterau tai bach"

"Cwrdd â grwpiau i wneud ffrindiau newydd"

"gwella cyfathrebu gyda phobl leol; Tudalen newyddion fisol

"mwy o finiau ar y fynedfa i'r llwybr arfordirol i ymdopi â'r cyfnodau prysur"

### Beth Ddigwyddodd Nesaf?
### Gwrandawodd y Cyngor, yna gweithredodd:

·· Lansiodd gylchlythyr digidol a phrint hawdd ei ddarllen
· Sefydlodd grŵp newydd ar gyfer pobl hŷn: Bythol Ifanc
Defnyddiodd weddillion i brynu'r cae chwaraeon yn llwyr — ac osgoi benthyg arian ·
Gwnaeth SLA gyda'r Cyngor Sir i achub tai bach ·
Gweithiodd ar gais grant ar y cyd i wella cyfleusterau cymunedol

**Roedd gwneud rhai enillion cyflym yn dangos fod y Cyngor yn gwrando ac yn ymateb i sylwadau'r gymuned.**
**Trwy gymryd ambell gam bach, gweladwy roedd y Cyngor yn gallu adeiladu momentwm ac ymddiriedaeth**

## Beth weithiodd yn dda?

**Defnyddio sawl ffomat — cyrraedd mwy o bobl**

✅ Roedd digwyddiad cyhoeddus anffurfiol wedi gwneud y Cyngor yn fwy hygyrch a rhwyddach cysylltu ag ef
✅ Roedd esboniadau byr a syml wedi helpu gwneud prosesau'r Cyngor yn fwy dealladwy
✅ Cyrhaeddodd ymweliadau drws i ddrws ac wedi'u targedu y 'mwyafrif tawel'
✅ Roedd yr adborth yn dangos fod mwy o ymddiriedaeth a dealltwriaeth o waith y Cyngor

## Beth fydden nhw'n wneud yn wahanol?

✨ Byrhau'r gofynion ar gyfer atebion yr arolwg— mwy o flychau ticio /rhifo blaenoriaethau yn hytrach na gofyn am eu syniadau / barn gan mai'r tueddiad oedd gadael y blychau barn hyn yn wag
✨ Cael ffordd o recordio sgyrsiau / ymatebion a sylwadau llafar
✨ Cynnwys grwpiau ieuenctid yn gynharach yn y dosbarthiad
✨ Ystyried grwpiau ffocws er mwyn cael mwy o ymgysylltu

## Prif Wersi

📣 Cyfathrebu'n gynnar ac yn aml
📍 Ewch i ble mae pobl — peidiwch aros iddyn nhw ddod atoch chi
📋 Gwneud arolygon yn fyr, gweledol, a rhwydd eu llenwi
👂 Defnyddio ymgysylltu i feithrin ymddiriedaeth hirdymor, yn hytrach na chymeradwyaeth untro
🤝 Mae bod yn agored yn creu cefnogaeth — ac atebion hyd yn oed

## Funding & Powers

Mae Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru yn deall fod ymgysylltu cymunedol gwirioneddol yn rhan allweddol o sicrhau bod gwasanaethau lleol yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau pobl leol. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori â chymunedau ar faterion fel llesiant, darparu gwasanaethau, a chynllunio cyllidebau, gan gynnwys gosod y praesept.

Mae Llywodraethiant ac Atebolrwydd i Gynghorau Lleol yng Nghymru: Canllaw i Ymarferwyr yn argymell fod cynghorau yn defnyddio prosesau ymgynghori agored a chynhwysol er mwyn bod yn fwy tryloyw, adeiladu ymddiriedaeth y cyhoedd, a chyfrannu at benderfyniadau cadarn.

Mae ar bob cyngor cymuned yng Nghymru angen pwerau cyfreithiol penodol sy'n eu galluogi i ddarparu gwahanol wasanaethau a chefnogaeth i'r cymunedau lleol. Mae'r pwerau hyn, a roddir trwy ddeddfwriaeth, yn galluogi cynghorau i ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau a chynlluniau i wella lles ac ansawdd bywyd eu preswylwyr. Gall pwerau a chyfiawnhad amrywio, a dylai cynghorau ystyried eu hamgylchiadau penodol..

I gael cyngor a chanllawiau, mae croeso i gynghorau gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru. gweinydd@unllaiscymru.cymru

## Y Dyfodol

- Mae'r Cyngor wedi gwneud cais i Gronfa Ymgysylltu Democrataidd Llywodraeth Cymru i geisio cael mwy o bobl i gymryd rhan a rhedeg gweithdai ar gyd-gynllunio dyfodol y cae chwaraeon.
- Maen nhw'n gweithio hefyd ar gais ar y cyd i ariannu clwb brecwast i deuluoedd dros yr haf a darparu cynnyrch ffres trwy brosiect yr Oergell Gymunedol.

Mae blaenoriaethau eraill yn cynnwys dod o hyd i arian i wella cyfleusterau chwarae a phartneru gyda Chyngor Sir Ceredigion i uwchraddio tai bach cyhoeddus.

## Eisiau Gwybod Mwy??

**Er mwyn cael gwybod mwy am brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:**

CoLC@onevoicewales.wales https://bit.ly/3KYHftK Un Llais Cymru